| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **7 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **CYMERADWYO CYLLIDEB 2022/23** |
| PWRPAS: | **I gyflwyno cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Cyllideb 2022/23 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

1.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Pensiynau'r gyllideb yn eu cyfarfod ar 17ain Ionawr 2022.

## 2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

| | Terfynol 2021/22 | Addasiad | Chwyddiant | Cyllideb 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | £668,020 | £122,100* | £19,220 | £809,340 |
| Costau teithio a chynhaliaeth | £1,440 | £0 | £0 | £1,440 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £251,580 | (£870) | £8,720 | £259,430 |
| Gwasanaethau Canolog | £114,490 | (£1,830) | £4,510 | £117,170 |
| **Cyfanswm** | **£1,035,530** | **£119,400** | **£32,450** | **£1,187,380** |

* Mae'r addasiad yn cynnwys lefi iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chostau angenrheidiol adnoddau ychwanegol yr uned a gyflwynir yn 2.1.

2.1 <u>Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth</u>

Mae'r gyllideb presennol ar gyfer yr uned yma yn cynnwys 18 swydd llawn amser ac 1 swydd rhan amser.

Yn y Pwyllgor Pensiynau, 17ain Ionawr 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor i gynyddu cyflog 6 swydd cymhorthydd pensiynau a chreu 1 swyddog pensiynau ychwanegol a 3 cymhorthydd pensiynau dros dro. Mae hyn oherwydd cymhlethdod cynyddol y cynllun, her o gael data cywir ac amserol, a phrosiect McCloud.

2.2 <u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>

Mae'r gyllideb yma yn cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a meddalwedd.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau Cyfarwyddwr y Gronfa a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r Cyngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

## 3. UNED BUDDSODDI

| | **Terfynol 2021/22** | **Addasiad** | **Chwyddiant** | **Cyllideb 2022/23** |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | £111,790 | £851* | £3,736 | £116,377 |

* lefi iechyd a gofal cymdeithasol

3.1 Gweithwyr

Mae'r uned yma wedi ei leoli o fewn prif uned Cyllid Canolog felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi ei rhannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (85%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (80%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (60%)

## 4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

Nid oes cyllideb yn cael ei osod gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.